***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 1847

## Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) (Cymru) 2003

**Defnyddio cyfathrebiad electronig**

**6.**—(1) Caiff unrhyw ddogfen y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, ei chyflwyno trwy gyfathrebiad electronig, yn ogystal â thrwy unrhyw fodd arall a awdurdodir gan y Ddeddf a dylid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at ysgrifen, sut bynnag y mae wedi'i fynegi, mewn perthynas â dogfen y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, fel cyfeiriad sy'n cynnwys cyfeiriad at ffurf y mae modd ei storio ar gyfrifiadur, ei throsglwyddo i gyfrifiadur ac ohono, a'i darllen drwy gyfrwng cyfrifiadur.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i:

(a) unrhyw gopi o hysbysiad o wrthwynebiad o dan adran 5(3) o'r Ddeddf; a

(b) unrhwy gopi o hysbysiad o gynnig i wneud gwaith diogelu'r arfordir, os yw'r person y mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad iddo yn cytuno i dderbyn cyflwyno'r ddogfen honno trwy gyfathrebiad electronig.